

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 6 Medi 2018 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Caple Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd P Jarman Y Cyngorydd D Grehan
Y Cyngorydd G Hughes Y Cyngorydd S Powell
Y Cyngorydd W Owen Y Cyngorydd J Harries
Y Cyngorydd R Yeo

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr J Bailey, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Ms L Coughlan, Solicitor
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd R Bevan

Y Cyngorydd H Boggis

82 YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad dros absenoldeb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J. Williams.

83 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, datganodd y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S. Rees fuddiant personol sy'n rhagfarnu o ran Eitem 5, Cais 18/0145 – Dymchwel byngalo presennol a chodi 2 bâr o dai pâr 3/4 ystafell wely, gyda garej dwbl a rhodfa â mynediad preifat. (Cais amlinellol) (cynlluniau diwygiedig o'r safle wedi dod i law 03/04/18). Ambleside, Hirwaun Road, Hirwaun, Aberdâr. "Rwy'n adnabod un o'r gwrthwynebwyr yn dda iawn ac rwyf wedi rhoi cyngor iddi o ran datblygiad arall yn y gorffennol. Felly, bydda i'n gadael y cyfarfod tra bydd y cais yn cael ei drafod".

**84 DEDDF HAWLIAU DEDDF 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI
DATBLYGU**

PENDERFYNWYD nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu

mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

85 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

86 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 2 Awst, 2018 yn rhai cywir.

87 CAIS: 18/0145

Dymchwel byngalo presennol a chodi 2 bâr o dai pâr 3/4 ystafell wely, gyda garej dwbl a rhodfa â mynediad preifat. (Cais amlinellol) (cynlluniau diwygiedig o'r safle wedi dod i law 03/04/18). Ambleside, Hirwaun Road, Hirwaun, Aberdâr.

(**Noder:** Wedi datgan buddiant yn y cais uchod (Cofnod Rhif 83), gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma).

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr Stephen Waldron (Asiant)
- Ms Dinah Pye (Gwrthwynebydd)
- Mrs Margaret Thomas (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Asiant, Mr S. Waldron, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebydd.

Siaradodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol H. Boggis, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei phryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor a rhoddodd wybod am gynnwys Amod ychwanegol:

Cyn i'r datblygiad gael ei ddefnyddio, rhaid i'r fynedfa, yn ogystal â'r lleiniau gwelededd a chyfleusterau troi, fod yn unol â'r cynllun wedi'i gyflwyno 1712.PL01B a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd y manylion wedi'u cymeradwyo yn cael eu rhoi ar waith yn ôl boddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn meddiant llesiannol oni bai bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cytuno mewn ysgrifen.

Rheswm: Er mwyn diogelwch cerddwyr a diogelwch ar y briffordd yn unol â Pholisi AW5, Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

Ac ail-rifo Amodau 1-12 i 1-13.

Ar ôl ystyried y cais, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio yn amodol ar y diwygiadau i'r Amodau wedi'u nodi uchod.

88 CAIS: 18/0575

Cais am gymeradwyaeth ar gyfer materion wedi'u cadw'n ôl (mynediad, golwg, tirlun, dyluniad a graddfa) mewn perthynas â chais cynllunio 13/0922/13 a gafodd ei gymeradwyo eisoes. Dymchwel adeilad segur clwb y gweithwyr ac ail-dirlunio'r safle ar gyfer datblygiad preswyl. Clwb y Gweithwyr, Cwm Clydach, Howard Street, Clydach, Tonypany.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor, gan roi gwybod i ganiatâd cynllunio amlinellol (13/0922/13) gael ei gymeradwyo mewn apêl ar 4 Mehefin 2015.

Ar ôl ystyried y cais, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

89 CAIS: 18/0763

Deciau arfaethedig y tu cefn i'r eiddo, 6 Mayfield Road, Pontypridd.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl ystyried y cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

90 CAIS: 18/0161

Annedd newydd arfaethedig ar dir preifat, tir cyfagos i Tŷ Draw House, Pont-y-clun.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNODD** Aelodau wrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

91 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 6 Awst 2018 ac 17 Awst 2018.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.40 pm

**Y Cynghorydd S Rees
Cadeirydd.**